

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cadw plant yn ddiogel rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 7

**Crynodeb o'r canllawiau i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.**



# Helo



## Mae cadw plant yn ddiogel yn fusnes i bawb.

Mae'n cymryd pawb i gydweithio a deall eu rôl a'u cyfrifoldeb.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dweud bod yn rhaid i bawb sy'n credu bod plentyn mewn perygl roi gwybod amdano. Mae hynny'n cynnwys niwed o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE).

**Mae plentyn yn golygu unrhyw un o dan 18 mlwydd oed**

### Math o gam-drin rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE).

Gall gynnwys y canlynol:

- rhyw
- gweithgarwch rhywiol
- tynnu lluniau neu ffilm anweddus o blentyn.

**ac**

Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gellir cynnig y canlynol i'r plentyn:

- rhoddion – alcohol – arian – cyffuriau – bwyd – dillad – llety
- sylw – anwyldeb – ymdeimlad o berthyn – neu rywbeth sy'n llenwi angen emosiynol
- i osgoi cosbi – niwed iddyn nhw eu hunain neu rywun maen nhw'n poeni amdano.

Weithiau mae rhywun arall yn trefnu'r cam-drin fel y gallant elwa.

### Rhaid i CSE ddod i ben.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bawb sy'n gweithio gyda phlant:

- wybod sut i adnabod arwyddion CSE
- camu i mewn yn gynnar ac i atal CSE
- cefnogi plant yn y ffyrdd cywir.

# 1. Canllawiau newydd

## Gweithio gyda'n gilydd i gadw plant yn ddiogel.

Rydym am i'r holl wasanaethau weithio gyda'i gilydd a chadw plant yn ddiogel. Felly, rydym wedi ysgrifennu'r canllawiau hyn. Rhaid i'r canlynol ei ddilyn:

- awdurdodau lleol
- Byrddau Diogelu a'u partneriaid gan gynnwys yr Heddlu
- gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg
- timau troseddau ieuenctid
- pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.



## Rhai ffeithiau

**Mae gan bob plentyn hawliau.** Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Erthygl 34: Ni ddylai neb gyffwrdd â phlant mewn ffyrdd sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist.

Mae mwy o **ferched** yn cael eu cam-drin drwy CSE na bechgyn, ond mae bechgyn yn cael eu cam-drin hefyd.

Weithiau, gall safbwyntiau diwylliannol a chrefyddol am ryw atal plant rhag siarad allan.

**Nid yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant byth yn fai ar blentyn. Ni all plant gydsynio i'w cam-drin eu hunain.**

**Gall paratoi** olygu nad yw rhai plant yn sylweddoli eu bod yn cael eu hecsbloetio. Efallai eu bod yn meddwl eu bod wedi rhoi caniatâd a ddim yn teimlo y gallant ofyn am help.

Paratoi – yw pan fydd rhywun yn adeiladu ymddiriedaeth plentyn drwy gyfeillgarwch neu berthynas. Y nod yw eu rhoi mewn sefyllfa lle gellir eu cam-drin yn haws. Gall ddigwydd ar-lein neu wyneb yn wyneb.

### Rhyw a'r gyfraith

16 yw'r oedran cydsynio cyfreithiol yn y DU.

Ni all unrhyw un o dan 13 mlwydd oed roi caniatâd cyfreithiol.

Mae amddiffyniad ychwanegol i bobl ifanc 16 i 17 mlwydd oed sy'n helpu i'w cadw'n ddiogel rhag CSE.

# Pwy sydd mewn perygl o CSE?

Gall unrhyw blentyn, o unrhyw oedran, o unrhyw gefndir neu ddiwylliant fod mewn perygl o CSE. Ond mae tystiolaeth yn dangos bod rhai plant mewn mwy o berygl nag eraill oherwydd:

- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)
- profiadau gofal ansefydlog
- trawma
- problemau gydag addysg
- materion iechyd meddwl
- camddefnyddio alcohol neu gyffuriau
- gweithgarwch troseddol
- anableddau dysgu
- LGBT+

**ACE** – gall fod yn gam-drin geiriol, meddyliol, rhywiol a chorfforol. Mae'n cynnwys cael eu magu mewn cartref lle mae trais domestig, camddefnyddio alcohol, neu gamddefnyddio cyffuriau yn bresennol.

# Pwy sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant?

Mae pobl sy'n cam-drin plant yn dod o wahanol gefndiroedd, gwahanol ddiwylliannau a chredoau. Maen nhw'n gweithredu mewn gwahanol ffyrdd:

- fel unigolion.
- fel grwpiau neu gangiau.

## Cam-drin cyfoedion

Weithiau mae camfanteisio'n digwydd lle mae plant yn cam-drin ac yn manteisio ar blant eraill. Gall plant sy'n ymwneud â CSE ddioddef camdriniaeth eu hunain.

## Cam-drin teuluol

Weithiau gall CSE ddigwydd mewn teuluoedd a chael ei drefnu gan aelod o'r teulu.



# Sut ydych chi'n nodi CSE?



Ni fydd plant bob amser yn gwybod bod rhywun yn camfanteisio arnynt nac yn gwybod sut i gael help. Gallant hefyd fod yn rhy ofnus i ddweud wrth rywun beth sy'n digwydd iddyn nhw.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wybod sut i nodi arwyddion posibl o CSE.

**Arwyddion corfforol:** cleisio, anafiadau heb esboniad, clefydau sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol.

**Arwyddion emosiynol:** mynd i'w cragen, newidiadau eithafol i hwyliau, dig, hunan-niweidio, hunanladdol, neu wedi ymddieithrio.

**Arwyddion materol:** ffonau, dillad neu esgidiau newydd, defnyddio alcohol neu gyffuriau neu fod ag arian.

**Arwyddion ymddygiadol:** bod yn gyfrinachol, mynd ar goll, bod mewn ceir anhysbys, bod allan o reolaeth.

**Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant siarad â'u rheolwr neu eu harweinydd diogelu am eu pryderon.**

**Dylent hefyd wneud atgyfeiriad amddiffyn plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**Os yw plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, rhaid iddynt ffonio'r Heddlu ar 999.**

# 2. Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)

**Gall wneud gwahaniaeth gwirioneddol pan:**

- mae pawb yn gwybod am CSE a sut i'w nodi
- mae gwasanaethau iechyd rhywiol yn helpu plant i ddeall perthnasoedd iach a sut i gadw'n ddiogel
- mae gweithwyr proffesiynol yn codi ymwybyddiaeth o CSE
- mae gwasanaethau'n camu i mewn yn gynnar i gefnogi teuluoedd ac adeiladu gwydnwch
- mae gan blant mewn gofal leoliadau hirdymor sefydlog a diogel
- mae pawb yn cael yr hyfforddiant, yr addysg a'r sgiliau cywir i gefnogi plant
- mae plant yn aros yn yr ysgol ac nad ydynt yn ffurfio patrymau o fod yn absennol neu ar goll
- mae ysgolion yn addysgu am berthnasoedd cadarnhaol a chadw'n ddiogel
- mae gwaith wedi'i dargedu at blant sydd angen amddiffyniad ychwanegol neu sydd mewn mwy o berygl
- mae gwasanaethau ieuenctid ar gael ac yn darparu cymorth
- mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwybod sut i nodi arwyddion trawma, esgeulustod a cham-drin



Mae hefyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol pan fydd gweithwyr proffesiynol yn edrych ar holl feysydd bywyd y plentyn. Yr enw ar hyn yw **Diogelu Cyd-destunol** ac mae'n cynnwys edrych ar:

- Ble maen nhw'n byw a pha heriau sydd yn y gymuned?
- Ble maen nhw'n cymdeithasu ac yn treulio amser?
- Ydyn nhw allan yn y nos neu'n colli ysgol?
- Beth maen nhw'n cysylltu ag ef ar-lein?

**Camu i mewn yn gynnar ac atal camdriniaeth yw'r ffordd orau o amddiffyn plant.**

**Mae'n rhaid i Fyrddau Diogelu Plant:**

- sicrhau bod hyfforddiant CSE yn berthnasol ac yn iawn ar gyfer rolau pobl
- sicrhau bod hyfforddiant CSE ar gael ac yn cael ei hyrwyddo ar draws eu rhanbarth.

**Mae'n rhaid i awdurdodau lleol:**

- sicrhau bod plant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn cael cynnig cymorth a chefnogaeth gynnar
- cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fydd pryder am blentyn yn cael ei adrodd.

**Dylai pob gwasanaeth** sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr:

- Yn deall beth yw ACE a pham eu bod yn rhoi plentyn mewn perygl
- Yn deall beth mae ymarfer sydd wedi'i lywio gan drawma yn ei olygu
- Yn ymwybodol o arwyddion corfforol, emosiynol, materol ac ymddygiadol CSE
- Yn gwybod pryd a sut i roi gwybod am blentyn sydd mewn perygl.

**Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:**

- adolygu eu polisi a'u trefniadau diogelu yn rheolaidd
- gweithio gyda phartneriaid i adeiladu cymunedau sy'n ddiogel i blant ac sy'n elyniaethus i CSE.

**Dylai pob lleoliad addysg, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion wneud y canlynol:**

- cymryd yn ganiataol bod CSE yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef
- sicrhau bod ganddynt fesurau ar waith i atal CSE.

# 3. Gweithdrefnau diogelu



## Rhaid i bawb wybod sut i roi gwybod am blentyn sydd mewn perygl.



Gall rhannu'r wybodaeth gywir, yn y ffyrdd cywir, ar yr adegau cywir wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rhaid i weithwyr proffesiynol a staff wybod sut i weithio gyda gwasanaethau a rhannu gwybodaeth. Rhaid i ofn rhannu gwybodaeth beidio â mynd yn y ffordd.

Er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol mae:

- **Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu**
  www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html

- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan**
  www.safeguarding.wales/chi/

### Eiriolaeth

Dylid dweud wrth y plant pam mae eu gwybodaeth yn cael ei rhannu a beth sy'n digwydd i'w cadw'n ddiogel. Mae gan blant sydd mewn perygl hawl i eiriolwr a dylid cynnig un iddynt. Gall yr eiriolwr fod yn unrhyw un maen nhw'n ymddiried ynddo. Rhaid iddynt sicrhau bod y plentyn yn cael gwrandawiad pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

**Mae'n rhaid i awdurdodau lleol:**

- ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan
- cyfeirio unrhyw blant sy'n derbyn gofal oherwydd eu bod mewn perygl o gael CSE i'r gwasanaethau i oedolion cyn iddynt droi'n 18 mlwydd oed.

# 4 Rhoi'r plentyn yn gyntaf

# 5. Amddiffyn a chefnogi plant

Nid un ffordd yn unig sydd o gefnogi plant. Dylai gweithwyr proffesiynol:

**Gynnwys plant wrth gynllunio.**
Rydym yn galw hyn yn ddull wedi'i lywio gan drawma ac mae'n bwysig meithrin perthynas drwy:

- roi cyfle iddyn nhw
- cydweithio
- adeiladu ymddiriedaeth
- rhoi rhyddid a grymuso
- eu cadw nhw'n ddiogel.

**Nodi eu hanghenion.**
Mae pob plentyn yn wahanol a bydd angen cymorth gwahanol arnynt yn seiliedig ar:

- oedran
- unrhyw anabledd neu anabledd dysgu
- rhyw, rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd
- ethnigrwydd neu statws mewnfudo
- amgylchiadau a chefndir eu teulu.

**Defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau:**

- gadael i'r plentyn osod ei nodau
- cynnwys y cryfderau a'r adnoddau sydd gan y plentyn yn eu hasesiad.
- helpu i feithrin cysylltiadau ag adnoddau yn y gymuned
- canolbwyntio ar obaith a phositifrwydd
- sylweddoli bod y plentyn yn arbenigwr yn ei fywyd ei hun a gweithio gyda nhw i'w helpu i wneud dewisiadau.

**Cynnwys gweithiwr arweiniol neu weithiwr allweddol dibynadwy.**
Mae hyn yn galluogi'r plentyn i ddatblygu perthynas llawn ymddiriedaeth. Bydd yn rhaid iddynt:

- fod ar gael, yn gyson ac yn hygyrch
- fod yn agored ac yn onest am yr hyn y gallant ac na allant ei wneud
- fod yn anfeirniadol a meddu ar sgiliau cyfathrebu da
- fod â diddordeb yn y plentyn
- cyfathrebu ac esbonio penderfyniadau am ofal a pham eu bod yn digwydd

**Cynnwys gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd.**
Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifol am roi Cynllun Gofal a Chymorth ar waith. Dylai Byrddau Diogelu, eu partneriaid a'r plentyn i gyd fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r cymorth.

Dylai'r Cynllun Gofal a Chymorth gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau eraill. Ni ddylai ganolbwyntio ar reoli risg yn unig.

**Rhaid i Fyrddau Diogelu a'u partneriaid:**

- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a staff yn ymwybodol o'r canllawiau hyn
- fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth i blant.

# Byrddau Diogelu, yr Heddlu a'r broses gyfiawnder

Mae'r Heddlu'n gweithio gyda Byrddau Diogelu, awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn eu helpu i rannu gwybodaeth am blant a allai fod mewn perygl a'u cadw'n ddiogel.

Gall rhannu gwybodaeth helpu hefyd i helpu'r Heddlu i atal y rhai sy'n cyflawni cam-drin rhag dod i gysylltiad â phlant sydd mewn perygl. Gall eu helpu i darfu ar ymddygiad y sawl sy'n cam-drin. Gallant eu rhoi dan oruchwyliaeth neu ddefnyddio gorchmynion cyfreithiol i'w hatal rhag bod mewn ardal neu'n agos at blentyn penodol.

## Cefnogi Plant sy'n Ddioddefwyr o CSE

Rhaid i blant gael cymorth drwy gydol y broses gyfiawnder. Mae Cod Dioddefwyr hefyd sy'n nodi hawliau plant sy'n ddioddefwyr.

**Cod Dioddefwyr**
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/974376/victims-code-2020.pdf

**Rhaid i'r Bwrdd Diogelu a'u partneriaid wneud y canlynol:**

- cael cyfarfodydd rheolaidd i ystyried CSE
- cydweithio i ddod o hyd i'r ymatebion gorau i CSE
- cefnogi rhannu a chofnodi gwybodaeth
- cefnogi dysgu amlasiantaethol o amgylch ymateb i batrymau lleol a rhanbarthol CSE
- cofnodi, cydlynu ac adolygu ymatebion i CSE a materion diogelu cysylltiedig
- nodi'r sawl sy'n cam-drin, lleoliadau a phatrymau troseddu ac tharfu ar eu hymddygiad
- ystyried sut y gall diogelu cyd-destunol helpu i ddatblygu cynlluniau rhanbarthol i atal CSE.

## Diolch am ddarllen hwn

Mae'r fersiwn llawn o'r canllawiau yma:

llyw.cymru/diogelu-plant-rhag-camfanteisio-rhywiol



Os ydych am gael rhagor o wybodaeth:

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

sam.clutton@gov.wales